@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

## Disgo Dwynwen

Bydd hi'n Ddiwrnod Santes Dwynwen ddydd Iau nesaf sef y 25ain o Ionawr. Mae'r Cyngor Ysgol yn trefnu DISGO ar gyfer y prynhawn, felly mae croeso i bawb wisgo'u dillad dawnsio i'r ysgol y diwrnod hwnnw! Eisiau dysgu mwy am Santes Dwynwen? Cliciwch yma i wylio fideo youtube gan Cadw – Santes Dwynwen – Nawddsant Cariadon Cymru




## Parêd Santes Dwynwen

Ar ddydd Sadwrn y 27ain o Ionawr cynhelir **Parêd a Thwmpath Dawns Santes Dwynwen** sydd wedi'i drefnu gan Gyngor Tref Aberystwyth. Mae'r digwyddiad am ddim, gyda'r parêd yn gadael am 2yp o dop y dref ger Neuadd y Farchnad. Cliciwch yma i weld y poster.

## NSPCC

Bydd y dosbarthiadau Dysgu Sylfaen yn cymryd rhan yn y Diwrnod Siarad Pants yr wythnos nesaf! Rydym fel ysgol wedi derbyn copïau am ddim gan Lywodraeth Cymru Pantosorws a phwer y PANTS (Pantosaurus and the Power of PANTS) | NSPCC Shop a bydd y disgyblion yn dilyn gweithgareddau yn deillio o'r llyfr hwnnw.

## Y Gymraeg

Yr wythnos hon rwyf am eich denu chi i fyd cerddoriaeth Gymraeg wrth i ni nesáu at Ddydd Miwsig Cymru (9fed o Chwefror). Mae cymaint o fandiau cyfoes gwych ar hyn o bryd, ac mae un band yn enwedig yn ffefryn gyda ni fel ysgol gan fod dau o'r aelodau yn gyn-ddisgyblion yma – MELLT!

Pa ganeuon a bandiau fyddai athrawon Bl.3-6 yn eu hargymell i chi wrando arnynt tybed? Wnes i ofyn iddyn nhw...


Mr Jac Wyn Williams
Gwalia gan Gwilym


Mrs Buddug Davies
Ysbeidiau Heulog gan Super Furry Animals


Mr Siôn Griffiths
Y Brawd Houdini gan Meic Stevens


Mrs Gail Jones
Garej Paradwys gan Ail Symudiad


Mr Dyfed Jones
Planhigion Gwyllt gan Mellt


Mrs Heledd Hughes
Sebona Fi gan Yws Gwynedd


Mrs Siân Eleri Davies
Sŵn ar Gardyn Post gan Bob Delyn


Miss Sera Evans
Drwy dy lygid di gan Yws Gwynedd


Mrs Caryl Jones
Coffi Du gan Gwibdaith Hen Frân


Mrs Meryl Wigley
Fron Goch gan Aeron Pugh

**PYPC – Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol**
Bydd copi papur ym mag disgyblion Blwyddyn 1 – 6 heddiw yn cynnwys gwybodaeth ac yn gofyn eich caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan yn y prosiect hwn. Byddem yn ddiolchgar i dderbyn eich caniatâd yn ôl i'r ysgol cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda, heb fod yn hwyrach na dydd Mercher 24ain o Ionawr.

**NODYN ATGOFFA: Eisteddfod yr Urdd**
Dyma neges i'ch hatgoffa o'r angen i ymaelodi a chofrestru eich plentyn os hoffech iddynt gystadlu'n unigol yn yr Urdd eleni. (Roedd fy llythyr yr wythnos diwethaf yn egluro'r gwahaniaeth rhwng yr Eisteddfod Ysgol ac Eisteddfod yr Urdd)

- **Os hoffech i'ch plentyn gystadlu'n unigol** (canu, llefaru, offerynnol, dawns) **mae angen i chi gofrestru arlein** gan ddilyn y ddolen isod. Dyddiadau cau: Ionawr 22ain ar gyfer offerynnol a dawns; Chwefror 5ed ar gyfer canu a llefaru)
- Mae'n rhaid i blant fod yn aelodau o'r Urdd cyn medru cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Cofrestru ar gyfer cystadlu:
Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2024 | Urdd Gobaith Cymru

**Calendr Hanner Tymor**
Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**
Sylwch fod dyddiadau pwysig Eisteddfodau'r Urdd wedi eu nodi ar waelod y Calendr Hanner Tymor.
Y dyddiadau ar gyfer y Nosweithiau Rhieni ar gyfer y tymor hwn yw dydd Llun y 18fed a dydd Mawrth y 19eg o fis Mawrth 2024.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**19/01/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

*Scroll down for English letter*

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

### *Dwynwen Disco*

*It will be Saint Dwynwen's Day on the 25th of January which is next Thursday. The School Council is organising a DISCO for the afternoon, so everyone is welcome to wear their dancing clothes to school that day! Want to learn more about Saint Dwynwen? Click here to watch a youtube video from Cadw -* [*St Dwynwen – Welsh Patron Saint of Love*]

### *Santes Dwynwen's Parade*




*On Saturday the 27th of January the Santes Dwynwen Parade and Twmpath (keilidh) which has been organised by Aberystwyth Town Council will be held. The event is free, with the parade leaving at 2pm from the top of the town nearby Market Hall.* Click here to see the poster.

### *NSPCC*

*The Foundation Learning classes will be taking part in Talk Pants Day next week! We as a school have received free copies from the Welsh Government* Pantosorws a phwer y PANTS (Pantosaurus and the Power of PANTS) | NSPCC Shop *and the pupils will follow activities derived from that book.*

### *The Welsh language*

*This week we are focusing on the world of Welsh music as we approach Welsh Music Day (9th February). There are so many great contemporary bands at the moment, and one band in particular which is a favourite with us as a school due to two of its members being former pupils here –* MELLT!
*Which songs and bands would Years 3-6 teachers recommend you to listen to? Here they are!*


Mr Jac Wyn Williams
Gwalia gan Gwilym


Mrs Buddug Davies
Ysbeidiau Heulog gan Super Furry Animals


Mr Siôn Griffiths
Y Brawd Houdini gan Meic Stevens


Mrs Gail Jones
Garej Paradwys gan Ail Symudiad


Mr Dyfed Jones
Planhigion Gwyllt gan Mellt


Mrs Heledd Hughes
Sebona Fi gan Yws Gwynedd


Mrs Siân Eleri Davies
Sŵn ar Gardyn Post gan Bob Delyn


Miss Sera Evans
Drwy Dy Lygid Di gan Yws Gwynedd


Mrs Caryl Jones
Coffi Du gan Gwibdaith Hen Frân


Mrs Meryl Wigley
Fron Goch gan Aeron Pugh

***NPEP – National Professional Enquiry Project***

*A paper copy will be placed in Years 1 - 6 pupils' bags today containing information and asking permission for your child to take part in this project. We would be grateful to receive your permission back to the school as soon as possible please, no later than Wednesday 24th January.*

***REMINDER : Eisteddfod yr Urdd***

*This is a message to remind you of the need to join and register your child if you would like them to compete individually in the Urdd this year. (My letter last week explained the difference between the School Eisteddfod and the Urdd Eisteddfod)*

- ***If you would like your child to compete individually** (singing, reciting, instrumental, dance) **you need to register online** by following the link below. Closing dates: January 22nd for instrumental and dance; February 5th for singing and reciting*
- *Children must be members of the Urdd to compete in the Urdd Eisteddfod.*

Register to compete here:
Competing Eisteddfod yr Urdd 2024 | Urdd Gobaith Cymru

***Half Term Calendar***

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates next half term***

*Please note that the important dates of the Urdd's Eisteddfodau are indicated at the bottom of the Half Term Calendar.*
*The dates for the Parents' Evenings this term are Monday 18th and Tuesday 19th of March 2024.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***19/01/2024***

www.ysgolgymraeg.cymru